**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Aled Jones
Llywydd
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Abi Reader
Dirprwy Lywydd
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

29 Chwefror 2024

Ardaloedd Draenio

Annwyl Aled a Abi,

Gwyddoch am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud mewn Ardaloedd Draenio, gan gynnwys i amddiffyn tir amaethyddol cynhyrchiol ar draws Cymru. Yn sgil yr argyfwng hinsawdd a'r perygl llifogydd cynyddol cysylltiedig, rwy'n ysgrifennu i fesur barn am effeithiolrwydd gweithrediadau o fewn Ardaloedd Draenio a'u gallu i amddiffyn tir gwerthfawr nawr ac yn y tymor canolig i'r tymor hir. Hoffwn glywed eich barn chi am y canlynol:

- Effeithiolrwydd presennol y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn Ardaloedd Draenio;
- Cynaliadwyedd y dull Ardaloedd Draenio yn y tymor hir. Yn benodol, a yw'r cyllid yn ddigonol ac a fyddant yn gallu diogelu tir ffarmio yn y dyfodol;
- Materion perthnasol eraill yr hoffech eu codi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Mawrth.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) i fesur eu barn.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg